

# Ffermio Organig yng Nghymru

## 2003 • 2004

Canolfan Organig Cymru
Organic Centre Wales

# Ffermio Organig yng Nghymru 2003/04

Cyfraniadau gan: Sue Fowler (Canolfan Organig Cymru), Michael Green (Canolfan Organig Cymru/Soil Association), Roger Hitchings (EFRC), Andrew Jedwell, Bob Kennard, Tony Little (Canolfan Organig Cymru), Heather McCalman (IGER), Neil Pearson (Canolfan Organig Cymru), Jane Powell (Canolfan Organig Cymru), Gareth Rowlands, Gary Spiller (Llywodraeth Cynulliad Cymru), Huw Thomas (ADC), Carolyn Wacher (Canolfan Organig Cymru) a Richard Weller (IGER).

© Canolfan Organig Cymru 2004

Cynhyrchwyd a chyhoeddwyd gan Ganolfan Organig Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Ceredigion SY23 3AL.
Ffôn. 01970 622248 www.organic.aber.ac.uk

Derbyniwyd gyda diolch gefnogaeth ariannol i gyhoeddi'r adroddiad hwn gan Gyswllt Ffermio, yr Undeb Ewropeaidd (EAGGF) a Llywodraeth Cynulliad Cymru..

Caiff y Ganolfan Ddatblygu Organig, a gaiff ei rhedeg gan Ganolfan Organig Cymru, ei rheoli gan Awdurdod Datblygu Cymru ar ran Awdurdod Datblygu Cymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o Cyswllt Ffermio.

Corff sy'n derbyn cyllid cyhoeddus yw Canolfan Organig Cymru sy'n gyfrifol am daenu gwybodaeth am fwyd a ffermio organig yng Nghymru. Mae'r Ganolfan yn cynnwys pum partner: ADAS Wales, Sefydliad Ymchwil Tir Glas ac Amgylcheddol (IGER), Canolfan Ymchwil Elm Farm (EFRC), y Soil Association a Phrifysgol Cymru Aberystwyth.

Llun y clawr: Jeremy Moore

Er i bob ymdrech gael ei gwneud i sicrhau cywirdeb yr adroddiad hwn, ni all Canolfan Organig Cymru na'i phartneriaid dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail yr wybodaeth a gynhwysir ynddo.

Argreffir yr adroddiad hwn ar bapur haen di-bren, diglorin o goedwigoedd cynaliadwy

Argraffwyd a dyluniwyd gan Cambrian printers Aberystwyth 01970 613021

# Rhagair

Wrth i'r amser agosáu pryd y byddaf yn ymddeol fel Cadeirydd Grŵp Strategaeth Organig Partneriaeth Amaeth-Bwyd ADC, gallaf edrych yn ôl gyda balchder ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni ers ei sefydlu ym 1999.

Cafwyd cynnydd mewn sawl cyfeiriad yn ystod y 12 mis diwethaf, yn enwedig o ran gwybodaeth am y farchnad o ganlyniad i'r ymchwil ar gyfer yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar, 'Bwyd Organig: deall y defnyddiwr a chynyddu'r gwerthiant'. Bydd yr wybodaeth hon, ynghyd â gwaith parhaus ar ddatblygu cynnyrch, yn galluogi cynhyrchwyr organig Cymru i fod yn broactif wrth adeiladu cynsail defnyddwyr gadarn. Dengys cyllido'r adroddiad hwn gan ADC y gefnogaeth y mae'r corff hwnnw a'r Bartneriaeth Amaeth-Bwyd yn parhau i'w rhoddi i'r sector organig, gan roi hwb i dwf llawer iawn o gwmnïau organig.


Eleni, gwelwyd datblygu ein gwaith addysg gyhoeddus. Ar y cyd â'r Soil Association, cafwyd rhaglen lwyddiannus o ymweliadau gan ysgolion â ffermydd organig, a'r gobaith yw, yn amodol ar gyllid yn y dyfodol, y bydd y gwaith hwn yn parhau. Gyda mentrau'r Cynulliad âr gaffaeliad cyhoeddus o ran cynnyrch lleol ac organig, y gobaith yw y bydd yna le i gynhyrchwyr organig gyfranogi yn y cyfleoedd a all godi yn y dyfodol, yn enwedig yn y sector addysg ac iechyd.

Yn gynt yn y flwyddyn eleni, bu ymestyn Cynllun Ffermio Organig Llywodraeth Cynulliad Cymru yn galluogi ein cynhyrchwyr organig presennol i hawlio cefnogaeth ariannol barhaus.

Tra bydd dyfodol cynhyrchu organig yng Nghymru'n parhau i gynnig nifer o gyfleoedd, ni ellir anwybyddu'r anawsterau sy'n dod i'r fei yn sgil diwygio'r PAC a marchnadoedd byd-eang ac rydym yn ffodus yng Nghymru i gael mwynhau trafodaethau adeiladol a chynhyrchiol â swyddogion sy'n galluogi trafodaeth adeiladol ar y materion polisi hyn ynghyd â rhai eraill. Rhaid i ni gofio bod ein holl ymdrechion yn dibynnu ar gymuned ffermio ffyniannus a hyfyw, ac i'r diben hwn, rhaid i gynhyrchwyr, swyddogion a chyrff gydweithio gan gynnal y momentwm sydd eisoes wedi'i sefydlu gan y gwir bartneriaeth sydd wedi'i chreu yng Nghanolfan Organig Cymru.

Mae'r dyfodol yn edrych yn gadarnhaol iawn i'r sector organig yng Nghymru a hoffwn ddiolch i'r rheini sydd wedi chwarae rhan wrth ddatblygu Canolfan Organig i Gymru – boed hiroes iddi.

*Gareth Rowlands*
*Cadeirydd, Grŵp*
*Strategaeth Organig*



Llun: WDA

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan Gareth Rowlands | 1 |
| Polisi Organig | 3 |
| Cynhyrchu Organig | 5 |
| Twf a Datblygiad y Farchnad | 7 |
| Cefnogi'r Farchnad | 8 |
| Y Sector Cig Coch | 10 |
| Y Sector Llaeth | 11 |
| Y Sector Garddwriaethol | 12 |
| Canolfan Organig Cymru - Amcanion a Nodau | 13 |
| Partneriaeth, Staffio a Rheoli 2003/04 | 14 |
| Gwasanaethau Ymgynghorol i Ffermwyr | 15 |
| Trosglwyddo Gwybodaeth | 17 |
| Ysgolion ac Addysg Gyhoeddus | 19 |
| Ymchwil a Datblygu | 20 |
| Adroddiad, Ffeithlenni a Gwybodaeth Ar-lein | 22 |
| Llyfryddiaeth | 23 |
| Aelodaeth Grŵp Strategaeth Organig ac Is-Grŵpiau 2003/04 | 24 |




*Llun: Jeremy Moore*

# Polisi Organig

Ffurfiwyd Canolfan Organig Cymru'n wreiddiol i weithredu fel ffynhonnell wybodaeth i gynhyrchwyr sy'n holi am ffermio organig: yn ein hail gyfnod, mewn ymateb i'r newidiadau yn y sector, mae gennym gylch gwaith cynyddol ynglŷn â materion polisi. Bu'n gyfnod prysur, pryd y gwelwyd Ail Gynllun Gweithredu Organig[1] a gweithredu diwygiadau i'r Polisi Amaeth Cyffredin a gwaith ar ddatblygu diwygiadau amaeth-amgylcheddol. Hefyd, yn ystod y flwyddyn, gwelwyd dechrau taliadau cynnal organig i ffermwyr.

## Yr Ail Gynllun Gweithredu

Adnabu adolygiadau i'r Cynllun Gweithredu Organig cyntaf yr angen i ailganolbwyntio gweithgareddau tuag at hybu cynnydd yn y cyflenwad, i wella marchnata cynhyrchion organig a datblygu dealltwriaeth o'r defnyddwyr; a chynyddu'r galw. Mae'r ail gynllun yn adlewyrchu amgylchiadau sydd wedi newid, golyga hyn ei fod yn canolbwyntio ar ddatblygu'r farchnad organig yn gynaliadwy, addysg gyhoeddus, caffaeliad cyhoeddus, adwerthu a datblygu'r gadwyn gyflenwi. Mae'r cynllun hefyd yn cydnabod yr angen am fwy o ymchwil, cudd-wybodaeth am y farchnad a thaenu gwybodaeth gan ailddatgan y dymuniad i weld cynnal statws GM-rydd Cymru.

## Cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol

### Cynllun Mynediad

Mae'r Ganolfan yn cydweithio â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth ddatblygu'r Cynllun Amaeth-Amgylcheddol ag iddo Lefel Mynediad i Gymru er mwyn sicrhau y bydd unrhyw gynllun a chymorth newydd i Ffermio Organig yn cael eu hintegreiddio. Bydd potensial y Cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol i helpu ffermwyr, trwy roi cefnogaeth wrth lunio cynlluniau rheoli adnoddau ffermio, gan gynorthwyo ffermio yng Nghymru i fod yn fwy cynaliadwy ac i leihau llygredd.

### Cynllun Ffermio Organig

Fel rhan o ddatblygiad y Cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol, mae gweithrediad y Cynllun Ffermio Organig yn cael ei adolygu. Asesir lefelau'r taliadau ac ni fydd yr iawndal ar gyfer cyfraddau stocio gostyngol wrth drosi, bellach yn berthnasol o dan y Taliad Fferm Unigol.

Er gwaetha'r ansicrwydd a achosir gan y newidiadau yng nghymorth y Polisi Amaeth Cyffredinol, derbyniwyd 38 o geisiadau newydd ar gyfer cymorthdaliadau trosi drwy'r Cynllun Ffermio Organig rhwng 1 Ebrill 2003 a 31 Mawrth 2004.

| Niferoedd net sy'n ymgymryd â Thaliadau Cynllun Ffermio Organig | 2001/02 | 2002/03 | 2003/04 |
|---|---|---|---|
| Nifer y cytundebau | 35 | 101 | 38 |

### Taliadau cynhaliaeth

Ym mis Mawrth 2004, gwelwyd agor y Taliadau Cynhaliaeth Organig hirddisgwyliedig. Gweithredir y cymorth yma drwy welliant i'r Cynllun Ffermio Organig ac mae'n golygu bod gan ffermwyr oddi mewn i'r cynllun daliadau uwch am flynyddoedd 4 a 5, a gallant barhau i gael eu cefnogaeth am 5 mlynedd ymhellach. Effaith uniongyrchol y newid yw bod y ffermwyr hynny a drosodd i organig heb unrhyw gefnogaeth ariannol bellach yn gallu hawlio cefnogaeth am y tro cyntaf. Er bod niferoedd y ffermwyr hyn yn weddol fach, bu'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun hyd yn hyn yn siomedig.

## Diwygio'r Polisi Amaeth Cyffredin a'r Adolygiad Canol Tymor

Erbyn hyn mae gan Ganolfan Organig Cymru sedd ar Bwyllgor Budd-ddeiliaid PAC Llywodraeth Cynulliad Cymru ac rydym yn gwneud ein gorau i sicrhau bod y diwygiadau'n ffafriol i ffermwyr organig, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Er gwaethaf bwriadau canmoladwy'r diwygiadau, mae rhai agweddau'n ymddangos fel pe byddent yn anfanteisiol i

[1] Gweler Partneriaeth Bwyd-Amaeth Cymreig (2004) Ail gynllun gweithredu organig i Gymru 2005/2010. Gweler www.organic.aber.ac.uk/policy/cynllgweithrorg2.pdf

ffermwyr organig, felly mae'r Ganolfan yn cydweithio â swyddogion gan ymateb i ymgynghoriadau i amlygu'r materion hyn a chael hyd i fecanweithiau i'w goresgyn.

## Ymateb i ymgynghori

Rhan o gylch gwaith y Ganolfan yw ymateb i ymgynghori a all effeithio ar ffermwyr, ffermio a bwyd organig. Rydym hefyd yn ymateb i ymgynghori lle y gall persbectif organig gynnig atebion neu farn. Lle bynnag bo modd y mae ymatebion drafft wedi'u gosod ar ein gwefan, ynghyd â gwahoddiad agored am anfon sylwadau cyn dyddiad cau'r ymgynghori.[2] Unwaith i'r cyfnod ymgynghori gau, bydd yr ymateb a gyflwynwyd gennym yn cael ei osod ar y wefan. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi ymateb i ymgynghoriadau gan Defra, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Ymhlith y materion dan sylw, bu'r adolygiad i gynlluniau amgylcheddol yng Nghymru, iechyd a lles anifeiliaid, y diciau, Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy Cymru a sawl un ar ddiwygio'r Polisi Amaeth. Ceir rhestr gyflawn ar gyfer 2003/04 isod.

CAP reform: Proposals for the operation of the cross-compliance regime
CAP reform: Potential for use of the national envelope
CAP reform: Operation of the National Reserve
Sustainable development action plan
Potential for use of National Envelope
Operation of the National Reserve
Proposals for the operation of the Cross Compliance regime
Preparing for a new GB strategy on bovine tuberculosis
Draft contingency plan for BSE being identified in sheep
Reform of the EU Common Agriculture Policy implementation in Wales. Dairy elements
Review of the National Assembly's Sustainable Development Scheme
Proposals to rationalize compensation for notifiable animal disease control
Reform of the EU Common Agriculture Policy implementation in Wales
Outline of an animal health and welfare strategy for Great Britain
Positive animal health: a draft action plan for a partnership approach in Wales and England
Animal health and welfare strategy for Great Britain: a partial regulatory impact assessment
Organic Strategy Group position paper on mid-term review proposals

## Meithrin cysylltiadau


Rhan bwysig o'n swyddogaeth yw meithrin cysylltiadau â chyrff eraill, ac un enghraifft fu'r cysylltiadau â'r Asiantaethau Safonau Bwyd sydd wrthi yn y gwaith pwysig o weithredu strategaeth faethiad i Gymru. Rydym wedi mynychu cyfarfodydd yr Asiantaeth gan ymateb i ymgynghoriadau, gan gynnwys un ynglŷn ag ymchwil i fwyd organig.

Hefyd, rydym wedi sicrhau sedd ar bwyllgor Cynllun Gweithredu Organig Lloegr. Mae hyn yn arbennig o fuddiol o ran cydlynu materion trawsffiniol i hwyluso cyfathrebu effeithiol oddi mewn i'r sector organig yn y DU.

## Buddsoddi cyhoeddus* yn y sector organig Cymreig (£m), 2001-2004

| Rhaglen | 2001/02 | 2002/03 | 2003/04 |
|---|---|---|---|
| Cynllun Ffermio Organig | 1.7 | 2.5 | 2.7 |
| Grantiau marchnata a phrosesu | ** | 0.8 | 2.1 |
| Canolfan Organig Cymru | 0.2 | 0.3 | 0.2 |
| Gwasanaeth Gwybodaeth Trosi Organig (OCIS) | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| Rhaglen Ddatblygu Organig Cyswllt Ffermio | - | 0.3 | 0.2 |
| CYFANSWM | 2.5 | 4.0 | 5.3 |

*Gwariant o ffynonellau LlCC, ADC a'r UE, gan eithrio costau gweinyddol y noddwyr
**Dim data organig penodol ar gyfer 2001/02
Ffynonellau: Llywodraeth Cynulliad Cymru, ADC a Chanolfan Organig Cymru




llun: OCW

[2] Gweler www.organic.aber.ac.uk/policy/consultations.shtml

# Cynhyrchu Organig

Yn dilyn twf sydyn yn yr arwynebedd tir sy'n cael ei reoli'n organig yn ystod y cyfnod 1998-2002, bu'r ddwy flynedd ddiwethaf yn gyfnod i atgyfnerthu. Cynyddodd arwynebedd y tir llwyr organig o 41,381 ha ym mis Mawrth 2003 i 50,921 ha ym mis Ionawr 2004. Bu cryn ostyngiad yn y tir sy'n cael ei drosi o 13,703 i 9124 ha. Mae hyn yn adlewyrchu'r patrwm yn Lloegr. At ei gilydd mae 4.1% o dir amaethyddol Cymru yn cael ei reoli yn organig.[3]




*Y cynnydd mewn tir a reolir yn organig yng Nghymru, 1995 i 2004. Ffynhonnell: Defra*

| | Mawrth 2004 |
|---|---|
| Ffermwyr a thyfwyr organig | 622 |
| Proseswyr/mewnforwyr organig | 106 |
| Cyfanswm busnesau organig trwyddedig | 728 |
| Wrthi'n trosi (hectarau) | 9,124 |
| Organig (hectarau) | 50,921 |
| Cyfanswm tir a reolir yn organig (ha) | 60,045 |

*Ffynhonnell: Adran Ystadegau Defra a Chanolfan Organig Cymru, 2004*

Mae nifer y ffermydd organig trwyddedig dros yr un cyfnod wedi cynyddu ychydig o 618 i 622, tra bu mymryn o gynnydd yn nifer y proseswyr organig cofrestredig (lladd-dai, cyfanwerthwyr, cynhyrchwyr, pacwyr cynnyrch ffres ayyb), o 103 i 106 gan wneud cyfanswm o 728 o fusnesau organig yng Nghymru.

[3] Am fwy o wybodaeth am ystadegau ffermio organig, gweler www.organic.aber.ac.uk/statistics

Mae'r rhan fwyaf o'r tir organig yng Nghymru'n gysylltiedig â chynhyrchu cig eidion a defaid – mentrau traddodiadol tirwedd Cymru, gyda thir glas a phorfeydd yn gyfrifol am bron i 90% o'r tir organig yng Nghymru. Ymhlith y mentrau sylweddol eraill, ceir tir âr (pedwar y cant o'r ffermydd), yn ogystal â 1.2% o ffermydd oedd yn tyfu ffrwyth a llysiau yn 2003.

## Pa siroedd sydd â'r mwyaf o dir organig?

Y sir sydd â'r arwynebedd tir organig mwyaf yw Powys, gyda 12,353 ha ym mis Mawrth 2003, ychydig o dan chwarter o holl dir organig Cymru – gweler y tabl. Gorwedd dros 50% (28,501 ha) o dir organig oddi mewn i siroedd gorllewinol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro a Gwynedd gyda'r 26% sy'n weddill (14,247 ha) ar wasgar yn y siroedd lleiaf.



Llun: OCW

**Dosbarthiad sirol tir a reolir yn organig, Mawrth 2003**

| Sir | Ha | % cyfanswm tir organig |
|---|---|---|
| Powys | 12,353 | 22.4 |
| Penfro | 9,144 | 16.6 |
| Ceredigion | 6,511 | 11.8 |
| Sir Gaerfyrddin | 6,458 | 11.7 |
| Gwynedd | 6,388 | 11.6 |
| Sir Ddinbych | 3,810 | 6.9 |
| Mynwy | 3,403 | 6.2 |
| Conwy | 2,919 | 5.3 |
| Morgannwg | 1,551 | 2.8 |
| Ynys Môn | 527 | 1.0 |
| Clwyd | 458 | 0.8 |
| Wrecsam | 414 | 0.8 |
| Abertawe | 397 | 0.7 |
| Sir y Fflint | 312 | 0.6 |
| Gwent | 239 | 0.4 |
| Caerdydd | 140 | 0.3 |
| Gor. Morgannwg | 77 | 0.1 |
| **Cyfanswm** | **55,101** | **100.0** |

*Ffynhonnell: Adran Ystadegau Defra, 2003*
*Gan fod enwau a ffiniau'r siroedd wedi newid ym 1996 a heb eu defnyddio'n gyson gan y cyrff ardystio, canllawiau yn unig yw'r ffigyrau hyn.*

# Twf a Datblygiad y Farchnad

Wrth i'r farchnad organig aeddfedu, er mwyn ffynnu, bydd y rheini sy'n cyfranogi ohoni'n gofyn am wahanol lefelau o soffistigedigrwydd. Yn dilyn cynnydd syfrdanol yn y galw yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ymddengys fel pe bai cyflymdra'r twf yn arafu ychydig. Bydd hyn, yn ogystal â rhagor o chwaraewyr yn dod i mewn i'r farchnad, yn rhoi pwysau ar bawb.

Yr allwedd i lwyddiant mewn unrhyw farchnad yw deall eich cwsmeriaid yn drwyadl. O gofio hyn, cynigiodd y Grŵp Marchnata Organig, y dylai ymchwiliad trylwyr i gymhellion prynwyr organig gael ei gynnal gan yr arweinyddion cydnabyddedig ym maes ymchwil farchnata, Taylor Nelson Sofres, ac fe lansiwyd yr astudiaeth bwysig hon – *Bwyd Organig: Deall y defnyddiwr a chynyddu gwerthiant* – yng Nghymru ym mis Mai 2004.[4]

Gyda chefnogaeth y Soil Association, Awdurdod Datblygu Cymru a Chanolfan Organig Cymru, ac wedi'i seilio ar ymchwil a wnaethpwyd ar draws 15,000 o gartrefi yn y DU, datgelodd yr adroddiad yr hyn sy'n ysgogi pobl i brynu bwyd organig a sut y gall busnesau organig yng Nghymru ehangu'u gwerthiant drwy strategaethau marchnata creadigol. Casgliad y canlyniadau oedd bod cefnogaeth i fwyd organig lleol yn gryfach yng Nghymru nag mewn unrhyw ran arall o'r DU, gyda 80% o ddefnyddwyr yn dweud eu bod yn well ganddynt fwyd organig a gynhyrchwyd yn eu mamwlad. Canlyniad y gwaith hwn fu cipolwg rhyfeddol ar y rhesymau pam bod rhai pobl yn prynu llawer iawn o fwyd organig o'u cymharu ag eraill na fyddant yn prynu ond yn achlysurol. Mae'r adroddiad hwn ar gael i bob prosesydd bwyd organig yng Nghymru, a'r gobaith yw y bydd yn fuddiol iddynt wrth ddatblygu'u busnesau.

Mae'r dull o ddarparu 'blwch offer' wedi cael ei ddefnyddio mewn meysydd eraill lle mae'r Grŵp yn ystyried bod angen cymorth ar fusnesau organig Cymru. Ond y dasg nesaf yw mynd yn ôl at y gwreiddiau er mwyn cael deall gan y cyfranogwyr yn y diwydiant, pa offer sydd ei angen arnynt i wella cynhyrchion organig Cymru mewn marchnad sy'n gynyddol gystadleuol. O'r ymarferiad hwn, gellir pennu blaenoriaethau i'r anghenion pwysicaf o ran 'offer' i alluogi cwmnïau i aros ar flaen y gad o ran datblygiadau organig yn y DU.

*Yr adroddiad marchnata newydd*




[4] Gweler www.organic.aber.ac.uk/library/TNS2004cym.pdf

# Cefnogi'r Farchnad

Mae Awdurdod Datblygu Cymru (ADC) yn parhau i wneud cyfraniad pwysig i ddatblygu'r sector bwyd a diod yng Nghymru. Mae ADC yn darparu cefnogaeth i gynhyrchwyr a phroseswyr organig mewn gwahanol ffyrdd gan gynnwys grantiau, mentrau hyrwyddo, Cyswllt Ffermio a gweithgareddau i ddatblygu'r fasnach.

## Grantiau Prosesu a Marchnata

Mae dros £6m wedi'u buddsoddi yn y sector organig Cymreig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf drwy gynllun y Grantiau Prosesu a Marchnata (GPM) sy'n cael ei ddarparu gan ADC drwy ddefnyddio cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Ewrop. Plas Rug yw un o'r cwmnïau sydd wedi elwa, ar ôl derbyn £70,000 i ddatblygu storfa aeddfedu a thorri sydd wedi'i theilwra i safonau'r UE. Fel yr eglura Philip Hughes, rheolwr Plas Rug: "Bydd y grant prosesu a marchnata'n ein galluogi i leihau ein costau prosesu fel y bydd yr hyn sydd gennym i'w gynnig yn organig yn fwy cystadleuol i farchnad gynyddol yng Nghymru a Lloegr. Dydyn ni ddim yn gadael i'r cwsmer anghofio'r ffaith eu bod yn prynu cig oen ac eidion Cymreig, sydd ymysg y gorau yn y byd, a hynny'n uniongyrchol o'r fferm. Ewyllys ein cwsmeriaid sy'n ein gyrru yn ein blaenau."



Llun: WDA

*Philip Hughes a chigydd Rhug*

## Gwobrau Bwyd a Diod Gwir Flas Cymru

Mae'r Gwobrau Gwir Flas Cymru,[5] sydd bellach yn eu trydedd flwyddyn, yn dathlu ac yn cydnabod yr hyn sydd orau am fwyd a diod yng Nghymru. Mae gan yr enillwyr y cyfle i ddangos eu cynnyrch i banel o feirniaid uchel ei bri sy'n cynnwys cogyddion, awduron bwyd a phrynwyr archfarchnadoedd. Maent hefyd yn elwa o ymgyrch gysylltiadau cyhoeddus ar draws y DU, ynghyd a'r sicrwydd o gael sylw ar Sioe Bwyd Cymru ITV.



*Y Scottiaid o Facheldre*

Yn 2003, cipiodd busnesau bwyd organig ddeg o'r gwobrau o gyfanswm o un ar hugain lle y gallent gystadlu. Mae enillwyr y Wobr Aur ar gyfer 2003-04, Melin Ddŵr Bacheldre yn yr Ystog, wedi gafael yn y cyfleoedd hyrwyddo sydd ar gael iddynt ac, yn ddiweddar, maent wedi sicrhau contract i gyflenwi'r Savoy a'r pymtheg bwyty sydd gan Jamie Oliver yn Llundain.

[5] Gweler www.cymruygwirflas.com

“Mae ennill y wobr wedi gwneud byd o les i’n busnes, a deud y gwir,” meddai Matt Scott o Facheldre. “Mae hyrwyddo a marchnata’r wobr wedi codi ein proffil yn sylweddol ac wedi rhoi i ni sêl bendith ychwanegol o ran ansawdd.”

## Datblygu’r fasnach

Mae cwmnïau bwyd organig wedi arddangos o dan frand y diwydiant, Gwir Flas, mewn digwyddiadau i’r fasnach a defnyddwyr ar draws y byd. Mae nifer o gytundebau busnes llwyddiannus wedi’u taro o fynychu’r sioeau hyn. Er enghraifft, mae Calon Wen wedi sicrhau cytundeb i gyflenwi llefrith a menyn i ddosbarthydd mawr o Lundain, o ganlyniad i gysylltiadau a wnaethpwyd yn y Sioe Gynhyrchion Organig a gynhaliwyd yn Olympia, Llundain ym mis Ebrill 2004.

Yn ystod y flwyddyn sy’n dod, bydd ADC yn gweithredu rhaglen fanwl i ddatblygu cyflenwyr organig. Bydd y rhaglen naw mis yn cynnwys gweithdai, cyngor un-wrth-un a chefnogaeth ymgynghorol ymarferol.

Amcan y rhaglen yw gwella sgiliau marchnata busnesau bwyd organig, fel y gallant ddiwallu anghenion eu cwsmeriaid targed bob amser, ar lefel y fasnach a’r defnyddwyr, gan arwain at fusnes sy’n fwy tymor-hir, proffidiol ac yn wytnach. Ar ben hynny, bydd gwell dealltwriaeth o’r sylfaen cwsmeriaid yn cynorthwyo wrth ddatblygu cysylltiadau contract mwy diogel a ddylai arwain, ym mhen amser, at ddatblygu cysylltiadau masnachu mwy proffidiol.

Mae llawer iawn o gwmnïau eisoes wedi elwa o’r amrywiaeth eang o weithgareddau er datblygu’r fasnach a gynigir gan ADC, sy’n golygu bod fwyfwy o gynhyrchion organig o Gymru’n ymddangos ar y silffoedd.

*Llun: Calon Wen*



# Y Sector Cig Coch

Yn hanesyddol, bu amaethyddiaeth yng Nghymru ar ei gorau'n cynhyrchu cig oen ac eidion o'r radd flaenaf. Yn wir, nid oes unrhyw wahaniaeth yn y sector organig, lle mae Cymru'n cynhyrchu cyfran sylweddol o gig oen ac eidion o'r safon uchaf yn y DU.

Tra'n croesawu'r ffyrdd arloesol o farchnata cig coch organig sydd wedi blodeuo – Marchnadoedd y Ffermwyr, archebu trwy'r post, gwerthu wrth lidiart y fferm a'r rhyngrwyd – y gwir amdani o hyd yw bod dros 80% o gynnyrch o'r fath yn cael eu gwerthu trwy'r archfarchnadoedd. Cafwyd newid dramatig er gwell yn ansawdd yr anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer y farchnad honno, sydd wedi rhoi i Gymru enw da haeddiannol o ran cynnyrch o'r safon orau.

Mae niferoedd yr ŵyn a'r eidion sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru hefyd wedi cynyddu'n ddramatig dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Tra bo'r farchnad wedi amsugno'r rhan fwyaf o'r cynnyrch yma, ceir o hyd, yn yr un modd â'r farchnad anorganig, ymchwydd o ran cynhyrchu yn yr hydref. Mae hyn wedi golygu bod ŵyn organig yn cael eu gwerthu ledled y DU ar y farchnad gonfensiynol wrth i'r mannau gwerthu ar gyfer cynnyrch organig fynd dan eu sang. Rhaid mai'r allwedd yn y tymor-canolig yw i ffermwyr organig daenu'r cynhyrchu ar draws y tymor. Fodd bynnag, er mwyn gwneud hyn, rhaid bod gan y ffermwyr yr hyder y bydd y mannau gwerthu a'r prisiau'n ddigonol i wneud i'r dasg o daenu cynhyrchu trwy'r tymor yn un gynhaliol. Dyma le mae angen ymrwymiad gan yr archfarchnadoedd er mwyn i'r system weithio er mantais pawb.

Heb amheuaeth, gall ffermwyr organig wneud mwy na chyfran deg o'r gwaith wrth gynhyrchu cig oen ac eidion o safon trwy'r tymor, ond rhaid wrth y syniadaeth gydlynol a fynegwyd yn Adroddiad Curry a datganiadau ers hynny i gyflawni hyn. Rhaid mai ffermwyr organig yn gweithio ar y cyd mewn trafodaethau â phroseswyr ac archfarchnadoedd yw'r ateb, ac rydym ar ein ffordd i gyrraedd y nod hwnnw.



Llun: WDA

# Y Sector Llaeth

Mae newid yn y prisiau yn y sector llaeth organig wedi hoelio sylw ar bwysigrwydd helfwyd yn y diet a'r costau cymharol sy'n gysylltiedig â naill ai prynu dwysfwydydd neu dyfu'r holl helfwyd + dwysfwydydd ar y fferm. Pan oedd pris llaeth organig yn uchel, gellid cyfiawnhau bwydo mwy o ddwysfwydydd, gan gynnwys defnyddio'r lwfans anorganig o 20% (bellach yn 10%). Yn ystod y cyfnod hwn, cynhyrchwyd dros 50% o'r holl laeth o ffermydd organig drwy ddwysfwydydd ac nid oedd ansawdd yr helfwyd mor bwysig.

Er bod pris dwysfwydydd organig wedi syrthio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae pris isel y llaeth ar hyn o bryd ynghyd â'r angen i fwydo diet 100% organig o fis Awst 2005 ymlaen, yn cynyddu pwysigrwydd cynhyrchu a defnyddio helfwyd yn effeithlon. Daw'r helfwyd rhataf i'w gynhyrchu o dir glas wedi'i bori sydd â chymhareb dda o ran glaswellt i feillion gwynion. Mae tir glas o'r math yn cynnwys llawer o brotein o ganol yr haf ymlaen, a bydd bwydo buchod sy'n uchel eu cynnyrch, ddwysfwydydd sy'n uchel o ran ynni/isel o ran protein (e.e. grawnfwydydd) yn hytrach na chymysgedd dwys, yn gwella'r gymhareb ynni-â-phrotein gan leihau costau'r bwydydd.

Ar rai ffermydd organig lle y ceir hinsawdd sy'n ffafrio cynhyrchu uchel o dir glas glaswellt a meillion, gall dwysfwydydd wedi'u prynu yn hytrach na'r rhai a gynhyrchir gartref yn lleihau cynaliadwyedd y system ond gall fod yn fanteisiol yn ariannol ac yn system haws i'w rheoli.

Cafwyd adroddiad bod cost cynhyrchu llaeth organig ar gyfartaledd yn 2.9 c/litr (Kingshay Trust 2003), yn uwch na'r pris a delir ar hyn o bryd i lawer iawn o ffermwyr am eu llaeth organig. Fodd bynnag, mae cyfanswm cynnyrch blynyddol llaeth organig yn y DU wedi ymsefydlogi (Soil Association 2004) ac mae yna arwyddion fod y galw'n cynyddu'n gyson. Yn amodol ar y galw cynyddol yn cael ei gyflenwi gan laeth organig a gynhyrchir yn y DU ac nid gan laeth/cynhyrchion llaeth sy'n cael eu mewnforio, gall fod cynnydd i'w groesawu yn y pris a delir yn dyfodol am laeth organig.



# Y Sector Garddwriaethol

Cyhoeddwyd adroddiad ar arddwriaeth organig o dan y teitl *Improving market intelligence for organic horticulture in Wales,* a gyllidir gan Gyswllt Ffermio ac sydd wedi'i baratoi i'r Ganolfan Organig gan y Soil Association ym mis Chwefror 2004.[6] Datgelodd yr adroddiad hwn fod gwerth y farchnad adwerthu ar gyfer ffrwythau a llysiau organig yng Nghymru dros £20 miliwn ac amcangyfrifir mai cyfanswm yr arwynebedd tir sy'n cynhyrchu'n arddwriaethol yng Nghymru yw 513 hectar ac mai tatws, cnydau ymborth anifeiliaid a llysiau gwyrdd yw'r cynnyrch pennaf (yn cyfateb i 28, 27 a 25% o'r arwynebedd tir yn y drefn honno). Bu'r arolwg hefyd yn datgelu helaethrwydd ffrwythau coed gyda 24 ha o berllannau yn cael eu cofnodi. Mae salad a chnydio gwarchodedig, er yn fach iawn o ran arwynebedd y tir, hefyd yn sylweddol o ran gwerth y cynnyrch.



### Dadansoddiad o ddefnydd tir garddwriaethol organig yng Nghymru mis Ebrill 2003

| | Arwyn-ebedd tir (ha) | % Arwyn-ebedd cyfanswm | Arwyn-ebedd tir (ha) | % Arwyn-ebedd cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwreiddlysiau a garlleg | 49 | 9.5 | 1,588 | 22.4 |
| Tatws | 145 | 28.3 | 1,860 | 26.3 |
| Gwyrddlysiau | 129 | 25.1 | 1,396 | 19.7 |
| Salad, cnydau gwarchodedig a pherlysiau | 15 | 3.0 | 288 | 4.1 |
| Cnydau ymborth (nid i'w fwyta gan bobl) | 137 | 26.6 | Dim ar gael | Dim ar gael |
| Cyfanswm llysiau | 474 | 92.5 | 5,133 | 72.5 |
| Ffrwythau coed | 24 | 4.6 | 1,574 | 22.2 |
| Ffrwythau meddal | 6 | 1.2 | 181 | 2.6 |
| Cyfanswm ffrwythau | 29 | 5.7 | 1,755 | 24.8 |
| Blodau a phlanhigion addurniadol | 7 | 1.4 | 146 | 2.1 |
| Cenhedlu planhigion, eginblanhigion a sylwedd llysieuol cenhedlol | 2 | 0.4 | 50 | 0.7 |
| Cyfanswm defnydd tir organig | 513 | 100.0 | 7,084 | 100.0 |

*Ffynhonnell: Defra, 2003 a Soil Association, 2003*

Mae nifer marchnadoedd y ffermwyr, cynlluniau blychau a mentrau amaethyddol a gefnogir gan y gymuned yn parhau i gynyddu. Nid oes unrhyw ddata i Gymru'n benodol, ond cynyddodd gwerthu cynnyrch organig yn uniongyrchol (y rhan fwyaf yn ffrwythau a llysiau) 28% yn y DU yn ei chrynswth yn 2003, ac mae hanesion i awgrymu nad yw'r sefyllfa yng Nghymru'n eithriad yn hyn o beth. Gan edrych ar y darlun ehangach, mae cyfran helaeth o ffrwythau a llysiau organig yn dal i gael ei mewnforio ac mae cyfleoedd o hyd i ddisodli allforion. Fodd bynnag, mae'r angen i gyfathrebu â phacwyr cyn plannu yr un mor allweddol ag erioed er mwyn cynllunio'r cynhyrchu i ddiwallu'r farchnad.

Lansiodd y Bartneriaeth Amaeth-Bwyd ei Strategaeth Garddwriaeth i Gymru yn gynnar yn 2003. Elfennau allweddol yw gwerthuso cyfansoddiad y diwydiant, i sefydlu Canolfan Ddatblygu Garddwriaeth yng Nghymru, gwella perfformiad technegol a busnes y sector, datblygu marchnadoedd newydd a chyfleoedd ac ymdrin ag anghenion hyfforddiant ac addysg y sector. Mae sawl elfen yn y strategaeth ar waith erbyn hyn gan gynnwys sefydlu Canolfan Ddatblygu i Gyswllt Ffermio ym Mhrifysgol Cymru Bangor i ymdrin ag anghenion y sector.

Lluniau: WDA

[6] Gweler www.organic.aber.ac.uk/library/MIhort2004.pdf

# Canolfan Organig Cymru – Amcanion a Nodau

Sefydlwyd Canolfan Organig Cymru yn 2000 fel canolbwynt i daenu gwybodaeth am fwyd a ffermio organig i gynhyrchwyr a phartïon eraill a chanddynt ddiddordeb yng Nghymru. Roedd ei sefydlu'n cyflawni un o brif nodau'r Cynllun Gweithredu cyntaf i Gymru ar gyfer ffermio organig, a'i chylch gwaith oedd cefnogi cyflawni nodau'r cynllun gweithredu ac, yn enwedig, i gyflwyno strategaeth gwybodaeth gydlynol.

Mae'r Ganolfan yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) A Chyswllt Ffermio (gyda chefnogaeth ychwanegol gan gyllid Amcan 1 EAGGF yr Undeb Ewropeaidd) i gyflawni'r swyddogaethau cydlynu, ynghyd ag arian ychwanegol ar gyfer cyflwyno gwybodaeth drwy gontract Gwasanaeth Gwybodaeth Trosi Organig LlCC a Rhaglen Ddatblygu Organig Cyswllt Ffermio.

Bu gweithgareddau creiddiol y Ganolfan yn ystod 2003-04 yn ddigon tebyg i'w chyfnod cyntaf yn 2000-2003, gan ganolbwyntio'n bennaf ar ddiwallu anghenion cynhyrchwyr, yn enwedig y rheini a drosodd i ffermio organig, trwy ddarparu llinell gymorth, hyfforddiant, cyngor a gwybodaeth. Fodd bynnag, gyda'r cynnydd sydyn yn y cyflenwad o gynhyrchion organig a'r pwysau marchnata sydd wedi'u creu, mae pwyslais y polisi wedi symud oddi wrth hybu'r cyflenwad i gefnogi'r galw – ysgogi mesurau gan gynnwys addysg gyhoeddus a chaffaeliad cyhoeddus.

Felly, mae'r contract a roddwyd i Ganolfan Organig Cymru gan LlCC ar gyfer 2003-2006 am £240,000 y flwyddyn yn ychwanegol, yn cynnwys briff i ymestyn darpariaeth y gwasanaethau gwybodaeth i'r gadwyn gyflenwi yn ei chrynswth. Bydd yn gwasanaethu defnyddwyr, gwasanaethu darparwyr a phartïon eraill a chanddynt ddiddordeb, ac yn cefnogi anghenion datblygu strategol, meithrin gallu a datblygu polisi'r gymuned organig yng Nghymru. Rhaid gosod cyflawni'r cylch gwaith ehangach hwn yn erbyn cefndir o gyfyngiadau ar adnoddau. gyda chontract LlCC yn gyfwerth â'r contract y flwyddyn gynt a thynhau ar gyllid Cyswllt Ffermio.

Felly, mae amcan y Ganolfan wedi esblygu i roi mwy o gefnogaeth yn gyffredinol i gyflawni nodau Cynllun Gweithredu Organig Cymru, a'r asiantaethau sy'n ymwneud â gweithredu'r Cynllun Gweithredu. Cyflawnir hyn drwy gydlynu a chefnogi gwasanaethau i'r gymuned organig yng Nghymru gan weithredu fel canolbwynt ar gyfer casglu data a thaenu gwybodaeth ar fwyd a ffermio organig. Mae'r Ganolfan hefyd yn darparu ffocws ar gyfer polisi, datblygu strategol a marchnata, hwyluso'r gadwyn gyflenwi a chaffaeliad cyhoeddus. Un o'i hamcanion arbennig yw helaethu gallu ac effeithiolrwydd y Grŵp Strategaeth Organig a'r is-grwpiau Garddwriaeth, Marchnata a Pholisi sy'n cydweithio i gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Organig presennol a'r rhai i'r dyfodol.

Wrth weithio tuag at gyflawni'r nodau hyn, amcan Canolfan Organig Cymru yw cyrraedd lefel rhagoriaeth sy'n cyfiawnhau chwarae rhan flaenllaw, nid yn unig yng Nghymru, ond hefyd yn y DU ac yn rhyngwladol.



# Partneriaeth, Staffio a Rheoli 2003/04

Ers iddo gael ei sefydlu yn 2000, mae'r Ganolfan wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth ac fe'i rheolir gan bartneriaeth o bum corff sydd i gyd wrthi'n brysur ym maes ymchwil ffermio organig a throsglwyddo gwybodaeth yng Nghymru: ADAS Wales, Canolfan Ymchwil Elm Farm (EFRC), y Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd (IGER), Sefydliad y Gwyddorau Gwledig ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth (IRS) a'r Soil Association. Mae staff creiddiol y Ganolfan yn gyfrifol am gydlynu'r gwahanol feysydd gweithgaredd, gyda'r partneriaid yn gyfrifol i raddau helaeth am ddarparu'r gwasanaethau i gynhyrchwyr ac eraill.

## Staff Canolfan Organig Cymru

Nic Lampkin, Cyfarwyddwr (ar sabbatical Chwe-Awst 2004)
Neil Pearson, Rheolwr
Sue Fowler, Swyddog Polisi a Datblygu
Carolyn Wacher, Cydlynydd Hyfforddi a Digwyddiadau
Tony Little, Cydlynydd Gwasanaethau Ymgynghorol
Phil Jones, Swyddod y Llinell Gymorth
Jane Powell, Swyddog Gwybodaeth
Pat Elkins, Ysgrifenyddes
David Frost, Swyddog Strategaeth Marchnata (ADAS)
Michael Green, Swyddog Gwybodaeth y Farchnad, Tachwedd 03-Mai 04 (Soil Association)

**Staff Cyswllt**

Roger Hitchings, EFRC
Heather McCalman, IGER
Phil Stocker, Soil Association

## Grŵp Rheoli'r Ganolfan

Nic Lampkin, Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, PCA, a Chyfarwyddwr COC
Neil Pearson, Manager, OCW
John Cook, ADAS Wales
Phil Stocker, Soil Association
Richard Weller, IGER
Roger Hitchings, EFRC

## Grŵp Llywio'r Ganolfan

Andrew Jedwell (Cadeirydd)
Nigel Elgar, Ffermwr
Tom Latter, Ffermwr
Brian Walters, Ffermwr
Iwan Wynne Jones, Ffermwr
Juliet Morris, Ffermwr
Owen Lort-Phillips, Ffermwr
Paul Nicholas, Organic Farm Foods
Trevor Roach, Gardd Fotaneg Genedlaethol
Richard Jones, Lantra
Alan Starkey/Ken Stebbings/John Davis, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Kevin Thomas/Arwyn Davies/Huw Thomas, Cyfarwyddiaeth Bwyd-Amaeth yr ADC
Nic Lampkin, Canolfan Organig Cymru
Neil Pearson, Canolfan Organig Cymru
John Cook, ADAS Wales
Richard Weller, IGER
Heather McCalman, IGER
Roger Hitchings, EFRC/OAS
Phil Stocker, Soil Association
John Griffiths, Canolfan Datblygu Llaeth

# Gwasanaethau Ymgynghorol i Ffermwyr

## Gwasanaeth Gwybodaeth Trosi Organig (OCIS)

Mae OCIS yn darparu gwybodaeth sydd ei hangen ar ffermwyr wrth benderfynu a ddylent drosi i ffermio organig. Rheolir y gwasanaeth gan y Ganolfan Organig gan dderbyn arian o Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae'n cynnwys llinell gymorth dechnegol, pecyn gwybodaeth a hyd at ddau ymweliad ymgynghorol a gyflwynir gan ADAS a'r Gwasanaeth Cynghori Organig.

Bu'r niferoedd yn cofrestru a'r ymweliadau, at ei gilydd, yn debyg i'r llynedd (gweler y tabl). Diwygio'r Polisi Amaeth Cyffredinol oedd bennaf ym meddyliau llawer iawn o ffermwyr wrth ystyried trosi eleni. Mae cyhoeddi'r taliadau cynnal ar ddiwedd 2003 wedi ennyn cryn ddiddordeb.

**Cofrestru ac ymweliadau OCIS, 2002-04**

| Blwyddyn (1af Mai – 30ain Ebrill) | Cofrestru | Ymweliadau cyntaf | Ail ymweliadau |
|---|---|---|---|
| 2003 – 2004 | 181 | 116 | 44 |
| 2002 – 2003 | 215 | 105 | 35 |

Derbyniwyd cyfanswm o 44 o geisiadau yn 2003/04 am gyngor technegol arbenigol dros yr un cyfnod. Ymhlith testunau'r cyngor arbenigol oedd rheoli, cynlluniau amaeth-amgylchedd (yn enwedig y cysylltiadau rhwng y Cynllun Ffermio Organig a Thir Gofal), paratoi ar gyfer y rhanddirymiad bwydo yn 2005, a materion yn ymwneud â safonau ac ardystio.

## Cyswllt Ffermio

Ers ei lansio ym mis Medi 2001, bu'r rhan fwyaf o gyngor i ffermwyr sy'n derbyn cyllid cyhoeddus wedi'i ddarparu drwy Gyswllt Ffermio. Darperir cyngor busnes trwy Gynllun Datblygu Busnes Fferm (CDBFf) sy'n helpu ffermwyr i archwilio ffyrdd o wella incwm y fferm. Yn ychwanegol at y CDBFf, mae diwrnod pellach o gyngor arbenigol hefyd ar gael.

## Adolygiad Cyfleoedd Amgylcheddol

Yn Ffair Aeaf 2003, gwelwyd lansio gwasanaeth ymgynghorol newydd gan Gyswllt Ffermio, yr Adolygiad Cyfleoedd Amgylcheddol (ACA). Rhan annatod yw'r gwasanaeth newydd hwn, sy'n rhan o strategaeth amgylcheddol ehangach i Gyswllt Ffermio, o'r Cynllun Datblygu Busnes Fferm. Fe'i darperir gan ADAS Wales ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i amcan yw sicrhau nad yw unrhyw gynlluniau a roddir gerbron drwy'r Cynllun Datblygu'n debygol o andwyo'r amgylchedd, yn ogystal ag adnabod cyfleoedd i wella adnoddau amgylcheddol y fferm.

Bydd ffermwyr organig yn debygol o elwa'n sylweddol o'r gwasanaeth, a fydd yn cynnig cyngor ychwanegol ar reoli gwrtaith, cefnogi'r gorchmynion amgylcheddol yn y safonau a'r Cynllun Ffermio Organig a helpu ffermwyr sydd hefyd yn rhan o Dir Gofal i reoli'u cytundebau'n well drwy drin gwastraff yn fwy effeithiol.

## Integreiddio gwasanaethau cynghori

Mae Canolfan Organig Cymru'n gweithio ar addasu'r gwasanaethau cynghori fel y byddant yn cysylltu'n well â'i gilydd, er enghraifft, drwy dynnu ar adnoddau cyfunedig OCIS, CDBFf, cyngor technegol arbenigol a'r Adolygiadau Cyfleoedd Amgylcheddol i ddatblygu cynllun trosi organig unigol sy'n cynnwys agweddau technegol, ariannol ac amgylcheddol.

## Rhaglen Trosglwyddo Technoleg Tir Glas

Mae'r gwaith organig estynedig a wneir gan IGER wedi parhau dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gydweithio'n gynyddol â phartneriaid yng Nghanolfan Organig Cymru a Chyswllt Ffermio a chyfranogaeth gan ffermwyr. Mae Trawscoed a Thŷ Gwyn wedi cael eu cynnwys mewn diwrnodau organig agored yn IGER.

Mae cyfarfodydd â grwpiau trafod wedi cynnwys elfen o "dewch-â'ch stwff eich hun", gyda dadansoddi a dehongli silwair, helfwyd ac ansawdd cig (gan gynnwys blasu cig) a rheoli tir glas o ran rheoli parasitiaid trwy gyfrif wyau mewn tail. Mae'r diwrnodau agored ar ffermydd organig arddangos wedi cynnwys helfwyd, glaswellt a grawnfwydydd, testunau sy'n allweddol i lwyddiant ffermio'n dechnegol ac yn ariannol a lle y ceir ymchwil ac ymdrech ddatblygu gan IGER. Mae cynllun hadau mandyfiant organig sy'n derbyn cyllid gan Gyswllt Ffermio, wedi gorffen ei flwyddyn gyntaf gyda cynhaeaf ar raddfa cae ar safle un o'r ffermydd a oedd yn cymryd rhan. Mae'r grŵp dan sylw'n parhau i archwilio llawer iawn o anawsterau ymarferol i dyfu hadau mandyfiant yng Nghymru, gan gynnwys rheoli chwyn, meithrin ffrwythlondeb a'i ymgorffori mewn system ffermio organig.



Llun: IGER

# Trosglwyddo Gwybodaeth

**Rhwydwaith Ffermydd Arddangos Organig Cyswllt Ffermio:** Bu newidiadau yn y Rhwydwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Yn dilyn nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus, penderfynodd Gareth Williams, Porthamel, Ynys Môn, a Maesterran, Penegoes, a reolir gan y Jonesiaid, beidio â pharhau fel ffermydd arddangos. Fodd bynnag, mae pum fferm newydd wedi ymuno â'r Rhwydwaith yn ddiweddar ac ynghyd â'r ffermydd gwreiddiol, Cannon a'r Groes Bach, mae bellach cyfanswm o saith fferm arddangos organig yng Nghymru. Y ffermydd newydd yw:

**Fferm Slade, Bro Morgannwg** cafodd ei throsi ym 1999 gan Peter Davies. Fferm eidion a defaid yw hon sy'n ymestyn i 810 hectar gyda 240 erw o gnydau âr y gwanwyn ar y cyd â Thir Gofal.

Mae **Fferm Big House, Sir Gaerfyrddin** yn cael ei ffermio gan Alex Holland a'i deulu. A hwythau'n rhedeg uned laeth isel ei chost, lloi gwanwyn a seiliedig ar laswellt, dechreuwyd ar ei throsi ym mis Mawrth 1998 ac erbyn hyn mae 240 Holstein croes a 100 o rai ifainc.





*Digwyddiad ar Cannon Farm*

**Great House Farm, Brynbuga** yw lle y dechreuodd Gerry a Linda Tuffs gynhyrchu wyau ieir rhydd ym 1985 gan drosi i systemau organig yn 2000. Ym 1999, sefydlwyd Farmhouse Freedom Eggs ganddynt, menter organig, sy'n graddoli ac yn pacio wyau ieir rhydd ac organig ar amrywiaeth o fannau marchnata.

Uned arddwriaethol arbenigol yw **Ystadau Penpont, Aberhonddu** a reolir gan Gavin Hogg gyda Mike Westrip fel y prif arddwr. Yn 2003, mae'r uned wedi datblygu'n sydyn ac erbyn hyn mae'n cynhyrchu amrywiaeth eang o gnydau gwerth uchel, rhai gwarchodedig a chnydau maes.

**Aberhyddnant, Crai** sy'n cael ei ffermio gan Paul a Liz Matthews, yw'r newydd-ddyfodiaid diweddaraf i'r rhwydwaith. Mae'r uned eidion a defaid mynydd sydd hefyd mewn Tir Gofal, yn cynnal 36 o fuchod sugno a 230 o ddefaid ar 91 ha a rhoddwyd statws organig i'r fferm ym mis Mehefin 2001.

*Llun: OCW*

## Gweithgareddau a digwyddiadau eraill i gynhyrchwyr

**Ffermydd datblygu:** Mae tair fferm, ADAS Pwllpeiran, IGER Trawscoed a Choleg Garddwriaeth Cymru'n parhau fel rhan o rwydwaith Ffermydd Datblygu Cyswllt Ffermio. Mae digwyddiadau agored ar y ffermydd hyn yn sicrhau bod eu gwaith ymchwil organig yn cael ei daenu i gynhyrchwyr ledled Cymru.



**Mae grwpiau trafod** a gefnogir gan Gyswllt Ffermio, yn ffynnu ledled y wlad, gan ddod â grwpiau bychain o gynhyrchwyr at ei gilydd i drafod materion technegol mewn awyrgylch cymdeithasol. Gan farnu wrth nifer y bobl sy'n eu mynychu ac amrywiaeth y testunau, mae'r grwpiau hyn yn profi'n boblogaidd iawn.

**Cynhadledd mis Hydref:** Cynhelir cynhadledd undydd i gynhyrchwyr, gan ganolbwyntio ar faterion yn ymwneud â chynhyrchu a'r Polisi Amaeth Cyffredin ar 14eg Hydref 2004 yn Llanelwedd. Yn dilyn digwyddiad llwyddiannus iawn yn 2003 lle y bu llawer iawn yn ei fynychu, bydd y digwyddiad eleni'n gyfle gwerthfawr i gael gwybodaeth dechnegol, adnewyddu cyfeillgarwch, cysylltu â chynhyrchwyr eraill a mwynhau cynnyrch organig drwy'r dydd.

**Asesiad iechyd a lles anifeiliaid:** ar y cyd â dau filfeddyg o Brifysgol Bryste, mae'r prosiect hwn yn anelu at ymgorffori y technegau lles anifeiliaid presennol mewn ffermio ac ardystio organig. Cynhaliwyd asesiad ar dri o ffermydd arddangos y Ganolfan, ac fe'u dilynwyd gan gyfarfod yn Aberystwyth gyda llawer iawn o bobl yn bresennol.

**Cyrsiau hyfforddi:** Gall Canolfan Organig Cymru ddarparu'r rhain drwy'r grwpiau trafod a marchnata presennol. Ar yr amod bod y Cynhyrchydd yn cael Archwiliad Sgiliau Cyswllt Ffermio, gallant gael 50% o'r costau a godir am y cyrsiau trwy Lantra.



*Lluniau: ADAS ac IGER*

# Ysgolion ac Addysg Gyhoeddus

Mae'r contract newydd â Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhoi cylch gwaith newydd i Ganolfan Organig Cymru sy'n cynnwys yr holl gadwyn gyflenwi ar gyfer bwyd organig ynghyd â'r defnyddwyr.

Cam hanfodol cyntaf yw ysgolion, ac ar y cyd â'i bartneriaid IGER a'r Soil Association, dechreuodd Canolfan Organig Cymru gydweithio ag ysgolion yn 2003. Yn ystod yr hydref, galluogwyd rhai o ysgolion cynradd Ceredigion gan brosiect peilot dan nawdd y Ganolfan ac eraill, i ymweld â fferm organig a chael cinio ysgol organig gan ddefnyddio cynnyrch lleol.[7] Roedd hyn yn cyd-ddigwydd â'r Wythnos Organig a Phythefnos Bwyd Prydeinig.

Yn 2004, gyda chyllid o Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm, mae Canolfan Organig Cymru a'r Soil Association wedi cydweithio ar brosiect i alluogi ysgolion i ymweld â ffermydd organig yng Nghymru. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddi ffermwyr i arwain ymweliadau ysgol, cefnogaeth i ddatblygu rhaglenni addysgol ac asesiadau risg a chymorthdaliadau tuag at gostau'r ymweliadau, gan gynnwys cymorth â chostau cludiant ar gyfer rhai ysgolion.

Mae cysylltiadau buddiol wedi'u gwneud â chyrff megis Addysg Ffermio a Chefn Gwlad, Gyrfaoedd Cymru, Y Cynllun Ysgolion Iach, Cymunedau'n Gyntaf, Eco-ysgolion a Chyngor Cefn Gwlad Cymru i gyflwyno rhaglen a fydd yn gweld rhyw 50 o ysgolion yn elwa o'r ymweliadau â ffermydd, gan adael y ffermydd hwythau mewn gwell sefyllfa o ran cyfleu'r neges am fwyd iach a ffermio i'r cyhoedd.

## Sioeau a digwyddiadau

Eleni, bu rhaglen y Sioe Amaethyddol Frenhinol yn cynnwys taflen Llwybr Organig a oedd yn galluogi ymwelwyr â'r Sioe i gael hyd i'r wybodaeth a'r cynnyrch organig a oedd ar gael. Gyda'r holl stondinau organig â'i gilydd yn y Ganolfan Bwyd a Ffermio Organig a leolwyd yn yr Ardal Gofal am Gefn Gwlad, a chynnig lluniaeth a chroeso, roedd presenoldeb organig go-iawn ar faes y Sioe. Bydd Canolfan Organig Cymru hefyd yn cydlynu presenoldeb organig yn y Ffair Aeaf gan rannu stondin yn Sioeau Amaethyddol Ynys Môn a'r Tair Sir.

Bu'r papur newydd a gynhoeddwyd gan y Ganolfan yn 2003, *Cymru Organig – Bwyd a Ffermio Organig yng Nghymru*, yn gyfrwng buddiol mewn perthynas â'r defnyddwyr yn y digwyddiadau hyn ac, yn ychwanegol, mae taflen newydd *Bwyd Organig – Beth yw'r holl sôn?*[8] wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar sy'n rhagnodi ffeithiau am fwyd a ffermio organig a'u pwysigrwydd i Gymru.



Llun: OCW

[7] Gweler www.organic.aber.ac.uk/schools/bffceredigion_cym.pdf
[8] Ar gael yn www.organic.aber.ac.uk/cymraeg/organics

# Ymchwil a Datblygu

Mae Canolfan Organig Cymru'n gwerthuso rhaglen ymchwil a datblygu'r DU yn erbyn blaenoriaethau sydd wedi'u pennu ar gyfer amaethyddiaeth organig Cymru. Mae'r gwaith yn nodi meysydd lle mae angen mwy o ymchwil, testunau ymchwil sy'n barod i symud at gael eu defnyddio neu'u datblygu, a hefyd asesu effeithiolrwydd taenu canlyniadau ymarferol. Mae'r gwaith yma'n dilyn o'r adolygiad a gynhaliwyd dros Lywodraeth Cynulliad Cymru â Bwrdd Cofrestr Safonau Bwyd Organig y Deyrnas Unedig sydd bellach wedi'i ddiddymu.



Mae'r staff yn Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, ADAS Wales, IGER ac EFRC yn parhau eu record hir a nodedig o ymchwil organig ac mae'r Ganolfan yn mwynhau perthynas agos â nhw.

Cynhaliwyd cynhadledd eilflwydd y Colloquium of Organic Researchers 2004 (COR) ym mis Ebrill yng Ngholeg Prifysgol Harper Adams ar y cyd â'r British Grassland Society a'r Society of Applied Biologists. Y thema gyffredinol oedd Ffermio Organig: Gwyddoniaeth ac Arferion ar gyfer Da Byw a Chnydio Proffidiol, a bu Nic Lampkin ynghyd â nifer o ymchwilwyr o bartneriaid y Ganolfan yn cyflwyno posteri a phapurau. Gellir cael hyd i fanylion am sut mae cael gafael mewn copi o'r trafodion ar dudalennau ymchwil y wefan.

Mae Canolfan Organig Cymru'n ymwneud â thaenu gwaith ymchwil drwy brosiectau trosglwyddo gwybodaeth sy'n derbyn arian gan raglen Cyswllt Ffermio y ceir manylion am rai ohonynt isod.

Yn yr adran arddwriaethol, mae gwaith yn parhau ar werthuso amrywogaethau llysiau sydd ar gael fel hadau organig. Dyma waith pwysig o gofio'r pwysau cynyddol ar dyfwyr i ddefnyddio hadau organig yn unig. Y gobaith yw erbyn y flwyddyn nesaf y gall y gwaith hwn gysylltu â phrosiect ehangach a fydd o dan arweiniad NIAB a'r Soil Association. Mae'r Ganolfan hefyd yn cefnogi prosiect yng Ngholeg Garddwriaeth Cymru i archwilio i effeithiau ffilmiau blocio plastig uwchfioled ar ymddygiad plâu.



*Profion naddion coed ADAS*

Prosiect sydd wedi cysylltu nifer o feysydd testunol pwysig fu gwerthuso naddion coed ar gyfer gwasarn da byw a'i gompostio wedyn gan ADAS ym Mhwllpeiran. Mae hyn bellach wedi symud i'r ail gyfnod lle y mae'r compost sy'n deillio ohono'n cael ei werthuso ar gyfer cynhyrchu madarch. Rhoddwyd sêl bendith yn ddiweddar ar brosiect ADAS i ystyried agweddau ar falltod tatws gan gynnwys yr amrywogaeth Sarpo ac i archwilio i'r potensial ar gyfer te compost wrth reoli malltod a thaenu unrhyw ganlyniadau yn sgil hyn.

Bydd prosiect arall a gymeradwywyd yn ddiweddar yn edrych ar reoli endo-barasitiaid ar ffermydd organig. Mae iddo'r nod deublyg o adolygu arferion trochi presennol a gwerthuso systemau pori gan gyfrif wyau mewn tail. Mae gwahanol weithgareddau, megis gweithdai, wedi'u cynnal dros y 12 mis diwethaf i gyfleu a thaenu canlyniadau prosiectau a gafodd eu cwblhau o dan Gyfnod 1 Cyswllt Ffermio. Mae'r rhain yn cynnwys testunau megis bridiau da byw ac adolygu ffermio organig, rheoli plâu ac afiechydon cnydau, arolwg ecto-barasitiaid a dulliau o reoli braenedd y traed a sawl un arall.

Am fwy o fanylion am yr ymchwil a wnaethpwyd gan Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, partneriaid y Ganolfan ac amrywiaeth eang o gyrff ewch at www.organic.aber.ac.uk/cymraeg/research.

*Diwrnod agored profion Sarpo, Henfaes*



Llun: ADAS Wales

Llun: David Shaw

# Adroddiadau, Ffeithlenni a Gwybodaeth Ar-lein

Mae'r Ganolfan yn parhau i gyhoeddi amrywiaeth o adnoddau gwybodaeth printiedig ac electronig. Ceir yr holl fanylion ar y wefan ar www.organic.aber.ac.uk. Darganfu arolwg defnyddwyr ar-lein yn ail ran 2003 mai ffermwyr oedd y garfan fwyaf o ddefnyddwyr, gyda'r gweddill yn eu nodi'u hunain fel defnyddwyr, staff academaidd, myfyrwyr, cyflogeion Llywodraeth neu Gyrff nad ydynt yn Gyrff Llywodraethol, a chynghorwyr ac ymgynghorwyr. Am adroddiadau a ffeithlenni oedd y galw mwyaf, ond soniwyd yn aml hefyd am dudalennau ffermwyr, y rhestr ddigwyddiadau, yr adran bolisi a'r tudalen hysbysebion.

Ers i gylch gwaith y Ganolfan gael ei ehangu yn 2003, mae tudalennau newydd am ddatblygu marchnadoedd a gwybodaeth am ddefnyddwyr wedi'u hychwanegu. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiadau a ffeithlenni sy'n rhoi gwybodaeth am y farchnad, gwybodaeth am gyflenwi'r sector cyhoeddus, twristiaeth organig a chysylltiadau â chyfeiriaduron adwerthu. Mae data ystadegol cynhwysfawr am y sector organig yng Nghymru hefyd ar ddangos ar y wefan mewn ymateb i'r nifer fawr o geisiadau a dderbynnir yn rheolaidd am ffeithiau a ffigyrau organig.



Llun: Jeremy Moore



Cyhoeddir dau fwletin electronig hefyd yn fisol, a'u hanfon at dros 500 o unigolion a chyrff yng Nghymru a thu hwnt a'u darllen gan lawer iawn rhagor na hynny. Mae Cymru Organig[9] yn cynnwys newyddion ac ymchwil organig gyffredinol, tra bo Marchnad Organig Cymru[10] yn canolbwynt ar wybodaeth am y farchnad.

Bydd y Ganolfan yn cyfrannu erthyglau'n rheolaidd ar fwyd a ffermio organig i Gwlad – cylchgrawn Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ffermwyr a'r Cambrian News, y papur lleol ar gyfer Ceredigion a gogledd Powys.

9 Gweler www.organic.aber.ac.uk/bulletin
10 Gweler www.organic.aber.ac.uk/markets/mibulletin

# Llyfryddiaeth

## Llyfrau ac adroddiadau

Bassett, A. (2003) Organic red meat development in Wales. OCW. www.organic.aber.ac.uk/library/redmeat.pdf
Bassett, A. (2003) Improving market intelligence for the organic red meat sector in Wales. Soil Association/OCW. www.organic.aber.ac.uk/library/miredmeat.pdf
*Bradshaw, N. J. et al. (2004) UK and EU policy for approval of pesticides suitable for organic systems: implications for Wales. OCW. www.organic.aber.ac.uk/library/pesticideregulation.pdf
Frost, D. (2001) Ffermio organig yn ADAS Pwllpeiran 1993-2001. ADAS Pwllpeiran. www.organic.aber.ac.uk/library/pwllcym.pdf
Frost, D. et al. (2002) Information and conversion – OCIS in Wales, 1996-2001. ADAS, Pwllpeiran. www.organic.aber.ac.uk/library/ocisinwales.pdf
*Frost, D. (2003) Improving knowledge of pest and weed control in organic crop production in Wales. ADAS/OCW. www.organic.aber.ac.uk/library/pestweed.pdf
Hancock, J. and R. Haward (2003) Improving market intelligence for organic dairy production in Wales. Soil Association/OCW. www.organic.aber.ac.uk/library/midairy2003.pdf
Hancock, J. et al. (2003) 100% Organic livestock feeds – preparing for 2005. Soil Association/OCW. www.organic.aber.ac.uk/library/feeds2005.pdf
*Haward, R. and M. Green (2003) Improving market intelligence for organic horticulture in Wales. Soil Association/OCW. www.organic.aber.ac.uk/library/MIhort2004.pdf
Lampard, J. and C. Porter (2002) Developing the infrastructure for organic farming in Wales. Project evaluation January 2000-December 2001. ADAS Pwllpeiran. www.organic.aber.ac.uk/library/cogreview.pdf
Lampkin, N., Measures, M. and Padel, S. (eds.) (2001, 2002, 2004) Organic farm management handbook. Institute of Rural Sciences, UWA and Elm Farm Research Centre
*McLean, B. and D. Frost (2003) Controlling ectoparasites on Welsh organic sheep farms. ADAS/OCW. www.organic.aber.ac.uk/library/ectoparasitewales.pdf
OCW (2001) Consultation on organic farming research and development priorities in Wales. www.organic.aber.ac.uk/research/ukrofs/revisedwelsh.doc
OCW (2001) 2001 Consultation of organic farming research priorities in the UK. www.organic.aber.ac.uk/research/ukrofs/UK%20R&D.doc
OCW (2001) A review of the Organic Conversion Information Service (OCIS) in Wales (1996-2001). www.organic.aber.ac.uk/library/OCISreview2001.pdf
OCW (2003) www.organic.aber.ac.uk/library/5yrcoverwelsh.pdf a www.organic.aber.ac.uk/library/5yrwelsh.pdf
Powell, J. et al. (2002) UK Organic Research 2002. Proceedings of the COR conference, 26-28th March 2002, Aberystwyth. www.organic.aber.ac.uk/conference/proceedings.shtml
*TNS (2004) Bwyd organig: deall y defnyddiwr a chynyddu gwerthiant. Soil Association/ADC/COC. www.organic.aber.ac.uk/library/tns2004cym.pdf.

*cyhoeddwyd er mis Gorffenaf 2003

## Arweinlyfrau technegol dwyieithog[11]

Ffermio organig. Llywodraeth Cynulliad Cymru/Canolfan Organig Cymru
Cynhyrchu llaeth organig. 1. Cynnyrch a pherfformiad y fferm. IGER
Cynhyrchu llaeth organig 2. Iechyd y fuches laeth. IGER
Rheoli llyngyr main mewn systemau defaid organig. Soil Association
Rheoli tail ar ffermydd organig. ADAS ac Elm Farm Research Centre

## Taflenni a ffeithlenni [12]

Cyfres taflenni gweithgareddau COC (3)
Cyfres taflenni ffermydd arddangos Amcan 5b (11)
Thinking of going organic? taflen
FS1. Gwybodaeth/cyngor am drosi organig a Chyswllt Ffermio
FS2. Gwybodaeth ychwanegol am y berthynas rhwng y Cynllun Ffermio Organig a Thir Gofal
FS3. Cyfleoedd hyfforddiant mewn amaethyddiaeth a garddwriaeth organig
FS4. Lladd-dai trwyddedig, proseswyr cig a phrynwyr anifeiliaid organig (wedi ei dynnu)
FS5. Cofrestr ymgynghoryddion organig achrededig
FS6. Hadau, porthiant a gwrteithiau
FS7. Ffermio organig yng Nghymru
FS8. Cylchoedd peiriannau
FS9. Cyflwyniad i dystysgrifio organig ar gyfer ffermwyr a thyfwyr
FS10. Taliadau cynhaliaeth (stiwardiaeth) organig
FS11. Meincnodi gyda Chanolfan Organig Cymru
FS12. Marchnata cig coch: gwerthu'n uniongyrchol
FS13. Cynhyrchu llaeth organig: perfformiad ariannol

**Cyhoeddwyd 2003/04**

FS14. Cynhyrchu gwartheg biff a defaid yn organig ar lawr gwlad: perfformiad ariannol
FS15. Cynhyrchu gwartheg biff a defaid yn organig ar dir mynydd: perfformiad ariannol
FS16. CAP reform and organic farming I
FS17. CAP reform and organic farming II
FS18. Creu marchnadoedd ar gyfer cig coch organig yng Nghymru
FS19. Creu marchnadoedd ar gyfer garddwriaeth organig Gymreig

11 See www.organic.aber.ac.uk/publications
12 See www.organic.aber.ac.uk/library/factsheets

# Aelodaeth Grŵp Strategaeth Organig ac Is-Grŵpiau 2003/04

## Grŵp Strategaeth Organig

Gareth Rowlands, ffermwr, Cadeirydd
John Davies, Canolfan Bwyd Cymru
Andrew Jedwell, ymgynghorydd, Cadeirydd Grŵp Llywio y Ganolfan Organig, cadeirydd ACOS
Bob Kennard, Graig Farm, Cadeirydd yr Is-Grŵp Marchnata
David Frost, ADAS, Cadeirydd yr Is-Grŵp Garddwriaeth
Nic Lampkin Cyfarwyddwr Canolfan Organig Cymru, Cadeirydd yr Is-Grŵp Polisi
Hilary Miller, Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Rhian Nowell-Phillips, FUW
Dylan Morgan, NFU Cymru
Mike Dunn/Alan Starkey/Chris Lea, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Peter Segger, Organic Farm Foods
Phil Stocker, Soil Association
Louise Owen, Clwb y Ffermwyr Ifainc
John Davies, Canolfan Bwyd Cymru
Lyn Powell, ADAS Pwllpeiran gynt
Nicola Salter, Asiantaeth yr Amgylchedd Cynrychiolydd Organic Farmers and Growers
Carwyn James, ffermwr llaeth
Huw Thomas/Kevin Thomas/Arwyn Davies/Delyth Davies, Awdurdod Datblygu Cymru

## Is-Grŵp Polisi

Nic Lampkin, Cyfarwyddwr Canolfan Organig Cymru, Cadeirydd
Andrew Jedwell, ymgynghorydd, Cadeirydd Grŵp Llywio y Ganolfan Organig
Dylan Morgan, NFU Cymru
Gundula Azeez/Phil Stocker, Soil Association
Hilary Miller, Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Kevin Morgan/Selyf Morgan, Prifysgol Cymru, Caerdydd
Peter Midmore, Prifysgol Cymru Aberystwyth
Rhian Nowell-Phillips, FUW
Sue Fowler, Swyddog Polisis a Datblygu COC (Cadeirydd Dros Dro Chwe-Awst 04)
Huw Thomas (ADC)

## Is-Grŵp Marchnata

Bob Kennard, Graig Farm, Cadeirydd
Martin Cottingham, Soil Association
Andrew Jedwell, Ymgynghorydd, Cadeirydd Grwp Llywio COC
David Stacey, Rachel's Dairy
Suzanne Rees, Organic Farm Foods
Nigel Elgar, Graig Farm Producers Group
Sue Jones, Llanboidy Cheese
Huw Thomas/Arwyn Davies/Kevin Thomas, Awdurdod Datblygu Cymru
Neil Pearson, Canolfan Organig Cymru

## Is-Grŵp Garddwriaeth

David Frost, ADAS, Cadeirydd
Alan Starkey, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Anne Evans, Tyfwr
Gareth Davies, HDRA
Kevin Thomas, WDA
Liz Findlay, Tyfwr
Paul Robertshaw/ Mark Simkin, Coleg Garddwriaeth Cymru
Rob Haward, Soil Association
Roger Hitchings, Elm Farm Research Centre
Tony Little, Cydlynydd Gwasanaethau Ymgynghorol, Canolfan Organig Cymru